

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
/ Prif Weithredwr GIG Cymru,
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

23 Ionawr 2019

Annwyl Andrew,

Diolch am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru, a osodwyd ar 12 Rhagfyr 2018. Fel y gwyddoch, bydd Dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 30 Ionawr 2019.

Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2019. Rydym yn croesawu fod Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Pwyllgor, a'i hymrwymiad i gynnal nifer o adolygiadau i edrych ar wybodeg, ac i ddatblygu Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol. Roeddem yn siomedig, fodd bynnag, nad oedd yr ymateb yn ymddangos fel pe bai'n cydnabod pryderon dwfn y Pwyllgor am yr arafwch i gyflwyno systemau gwybodeg newydd ar draws y GIG yng Nghymru. Ymddengys mai ychydig o gydnabyddiaeth sydd yn yr ymateb o'r newid radical sydd ei angen, a'r brys y mae angen ei gyflawni. Nodwn y bydd canlyniadau'r adolygiadau yn arwain at newid, ond mae angen cyflawni hyn ar gyflymder gan bod Gwybodeg GIG Cymru wedi methu â chadw i fyny â thechnoleg fodern, ac mae staff yn y GIG bob dydd yn cael trafferth â systemau nad ydynt yn gweithio.

Nodwn y bydd yr adolygiadau a'r Cynllun yn cael eu cwblhau o fewn chwe mis, a phryd hynny, disgwyliwn gael gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y



Cynllun. Byddwn hefyd am geisio sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru a'r GIG yn ehangach yn gweithredu yn ôl yr angen i ddarparu'r adnoddau a'r newidiadau ymarferol y mae'n rhaid wrthynt i wella gwybodeg o fewn yr un amserlen. Felly, hoffwn eich gwahodd chi, ynghyd â'ch swyddogion perthnasol, i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer prynhawn y 1 Gorffennaf 2019. Cyn y sesiwn hon, hoffai'r Pwyllgor gael papur ynglŷn â'r wybodaeth gymharol ar y pryd, ac sy'n dangos a yw niferoedd a difrifoldeb y toriadau data wedi lleihau.

Byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'i adolygiadau, neu a yw am eu rhannu â'r Pwyllgor, wrth i'r adolygiadau ddod i ben.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Nick Ramsay". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping underline.

Nick Ramsay AC
Cadeirydd

